

Portffolio adfyfyrio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar

Rhestr Cynnwys:

- Elfen 1: Gwerthusiad o 2 fodel adfyfyriol
- Elfen 2: Papur briffio
- Elfen 3: Log adfyfyriol
- Elfen 4: Cynllun Datblygiad Personol



Elfen 1:

Gwerthusiad o 2 fodel adfyfyriol

Mae ymarferwyr yn gwneud dros 800 o penderfyniadau yn ystod un diwrnod (Kennedy, A a Gaye, M, dim dyddiad) ac er mwyn sicrhau eu fod wedi gwneud y penderfyniad orau ar gyfer y sefyllfa, neu eu fod yn dysgu wrtho er mwyn datblygu a gwella yn barhaus erbyn y dyfodol, maent yn adfyfyrio yn gyson. Fel ymarferydd Blynyddoedd Cynnar, mae'r adnodd yma o afyfyrio yn ein galluogi i parhau i chynnal y gwasanaethau gorau posib, yn cytuno a hyn, mae (Marbina et al, 2010) yn nodi, 'Reflective practice is a feature of a high quality learning environment, it allows early childhood professionals to develop a critical understanding of their own practice, and continually develop the necessary skills, knowledge and approaches to achieve the best outcomes for children'. Mae yna lawer o ffyrdd y gall unigolyn neu tîm o bobl penderfynu i defnyddio i adfyfyrio, ond dau sydd yn poblogaidd o fewn leoliadau efo ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar yw fodel Gibbs, (1988), ynghyd a theori Schön, (1983).

Fe datblygodd Gibbs fodel adfyfyrio o'r enw 'The Reflective Cycle' sydd yn eich arwain trwy 6 cam i ymwneud a'r profiad, megis, disgrifiad ohono, eich teimladau yn ystod, gwerthusiad, wrth cofio'r da a'r ddrwg, dadansoddiad, casgliad, ac yna cynllun gweithredu. I gymharu a Schön, yn ôl Gibbs ('Learning by doing', 1998) mae hyn yn fantais fel arfer adfyfyrio ac yn gweithio'n da o fewn ymarfer, oherwydd, gan feddwl am pob cam yn fanwl, rydym yn fwy tebygol o ymgysylltu'n feirniadol efo'n profiadau dysgu. Fodd bynnag, tra bod hyn yn helpu i rhoi strwythur, mae (Zeicher a Liston, 1996) yn dadlau fod angen i ymarferwyr 'symyd tu hwnt gwestiynau ynghylch a yw eu harfer yn gweithio, er mwyn archwilio yn fwy i mewn i i'w gwerthoedd a sut gall adfyfyrio ar eu ymarfer arwain at newid, ymrwymiad i ansawdd a pharch at wahaniaethau' (Finlay, L. 2008).

Ar y llaw arall, mae (Schön, 1983) a'i fodel o 'Reflection in action/ Reflection on action' yn wahanol gan ei fod nid yn unig yn son am pwysigrwydd afyfyrio ar profiad ar ol iddo digwydd, mae hefyd yn ceisio gael i ni adfyfyrio wrth gyflawni'r weithgaredd. Felly, mae yn fanteisiol gan ei fod yn fwy rhagweithiol nag adweithiol i gymharu a 'Reflective Cycle' Gibbs. Yn ogystal a adfyfyrio ar sefyllfa blaenorol, mae Schön yn ein hybu i dod yn fwy cydran yn adfyfyrio tra ein fod yn byw'r profiad, sef 'Reflection in Action', felly gymhwyso gybodaeth flaenorol i profiadau bresennol. Fodd bynnag, mae Eraut (2004) yn ei feirniadu drwy cwyno ei fod yn diffyg eglurder a manul gywirdeb.

Serch fod model Gibbs (1988) yn sicr yn cymryd lawer fwy o amser i gymharu a Schön, mae yn fanteisiol fel adnodd i ymarferwyr sydd yn gweithio yn leoliadau Blynyddoedd Cynnar gan ei fod yn yn addas i defnyddio i adfyfyrio yn unigol neu o fewn dîm o bobl sydd â'r un nodau, er enghraifft o

fewn cyfarfodydd staff. (University of Edinburgh, 2019). Fodd bynnag, un o anfanteision mwyaf fodel Schön fel arfer o adfyfrio o fewn leoliadau sydd y gweithio efo plant ifanc, yw'r ffaith nad yw yn cymryd mewn i ystyriaeth y teimladau ac emosiynau oedd yn chwarae rhan ar y pryd. Dywedau Dr Jacqueline McManus (dim dyddiad), 'building on a relational and interdependent perspective, as opposed to the traditional technical-rational view, it is proposed that greater awareness of emotions and the information they are conveying to us, is something that would enhance the process and result of critical reflection and contribute a significant advancement to the conceptualisation of the approach'. Yn ôl hyn, mae yn fantais i ymarferwyr defnyddio fodel Gibbs fel adnodd am adfyfrio gan ei fod yn cynnwys cam penodol ar gyfer ystyried emosiynau, ac o ganlyniad, nid yn unig ydychi'n yn ffocysu ar fel i datblygu a gwella erbyn y dyfodol, ond hefyd yn ystyried y rheswm pam mae angen. Er enghraifft, os wnaeth y profiad wneud i chi neu'r gynulleidfa teimlo o dan straen, yn anhapus neu'n anghyfforddus, mae'n glir fod angen adfyfrio ar hyn a dod o hyd i cynllun wahanol er mwyn wneud yn un fuddiol ac yn llwyddiannus erbyn y tro nesaf. Yn cefnogi hyn, mae Raelin (2001) a Mezirow (1991) hefyd wedi creu fodelau adfyfrio sydd yn ystyried pwysigrwydd ac effaith ein emosiynau gan cynnwys cam o'r broses maent yn alw 'rhoi sylw i deimladau' (McManus, J. dim dyddiad).

Yn gyfangwbl, fel gallwn weld, mae yna manteision ac anfanteision i'r ddau fel modelau sy'n cael i defnyddio gan ymarferwyr fel adnoddau i datblygu ei hyn er mwyn helpu iddyn nhw fod yn adfyfyrwyr fwy hyderus ynghyd a wella'r profiadau maent yn ddarparu, cyhyd a fod gennym yr eisiau i datblygu ein hunain yn barhaus ac yn cofio i gadw feddwl agored tuag at newid.

Elfen 2:

Papur Briffio



Bwysigrwydd arfer adfyfyriol ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar

Beth yw'r arfer o adfyfyrio ?


Yn syml, adfyfyrio yw'r broses o feddwl am yr hyn rydych chi'n ei wneud neu ystyried rhywbeth i chi wedi gwneud ac yna penderfynu beth fyddde chi'n newid a'i wneud yn wahanol y tro nesaf er mwyn datblygiad personol a gwella'r profiad i'r gynulleidfa.

'Reflective practice is an excellent way to maintain and continually improve the quality of your practice. It is the process of thinking about and analysing your practice, with the aim of challenging, changing, modifying developing and improving it. This should be a continuous cycle of reflection and improvement' (Pacey, 2016)



Er mwyn fod yn ymarferwr adfyfyriol ...

Enghraifft o model adfyfyrio sydd gallu cael ei defnyddio'n ymarferol:



Dyma enghraifft o model adfyfyrio (Gibbs, 1998) sydd yn un poblogaidd o fewn y gweithle gan ei fod yn cynnwys 6 cam strwythuredig er mwyn adfyfyrio wrth hefyd cymryd ystyriaeth i ba deimladau ac emosiynau sydd yn chwarae ran. I ddarganfod fwy ynglyn a'r fodel yma, ymwelwch a wefan:

<https://my.cumbria.ac.uk/media/MyCumbria/Documents/ReflectiveCycleGibbs.pdf>

Er mwyn fod yn ymarferwr adfyfyriol llwyddiannus a cynnal y gwasanaethau orau ar gyfer y plant a'i theuluoedd o fewn y Blynyddoedd Cynnar, mae angen eich fod yn gallu cydnabod eich cryfderau a'i dathlu (Llywodraeth Cymru, 2019) ynghyd a cael yr allu i fod yn critigol, yn honest ac yn feddwl agored efo'r agweddau sydd angen datblygu er mwyn newid a'i wella.

'Professional standards are intended to enable practitioners to reflect on their practice, individually and collectively, against nationally agreed standards of effective practice and affirm and celebrate their successes'.

(Llywodraeth Cymru, 2019)

Er mwyn ymateb i'r datblygiad a'r newid yma yn positif, mae angen:

- Meddwl ac ystyried
- Rhesymu
- Gwerthuso
- Rhoi adborth ac esbonio
- Dysgu

(Hallett, 2013:28)



Pwysigrwydd arfer adfyfyriol o fewn y Blynyddoedd Cynnar

Fel ymarferwr o fewn y Blynyddoedd Cynnar, o fewn cyfnod fe welwch newidiau i ymwneud a'r cwricwlwm a'r fframweithiau, hawliau a reolau ynghyd a teimlo'r effaith mae'r byd a'i datblygiadau technoleg yn cael ar plant y genedlaethau iau. Mae yn hollbwysig eich fod yn ymateb i'r datblygiadau os ydych am barhau i ddarparu'r gofal ac addysg orau i blant ifanc. (Ritchie, C., ed. 2014). Er mwyn llwyddo i wneud hyn, mae'n allweddol eich fod yn adfyfyrio yn gyson er mwyn hybu datblygiad personal parhaus ac osgoi ofni newid. Fel meddai Josephine Bleach,

'Reflective practice and ongoing professional development for staff are regarded as central to ensuring high standards of quality provision in early childhood care and education settings' (Bleach, J. 2014).

Yr unig elfen â wnaeth byth newid, yw'r ffaith taw budd gorau'r plant a'i teuluoedd, ynghyd a chynnal gwasanaethau o safon ar eu cyfer, sydd bob amser yn dod cyntaf, ac er mwyn wneud hyn, mae angen i ni sicrhau ein fod yr ymarferydd adfyfyriol gorau allwn fod. Felly, wrth adfyfyrio rydych yn gwella eich hyn fel ymarferwr, sydd yna yn gwella a chyfoethogi'r profiadau i'r plant. Mae ymchwil o gwaith MacNaughton (2005, yn Marbina et al, 2010) yn nodi, 'Professionals who regularly reflect on what they do, why they do it and how this new knowledge can be used to improve their practice, achieve the best outcomes for childrens and families'.

Wrth cynnal gwasanaethau lle mae'r ymarferwyr yn hyderus, yn wybodus ac a'r gallu i adfyfyrio'n gyson ac yn feddwl agored, rydym yn llwyddo i gael effaith positif ar datblygiad hir dymor y plant, VEYLDF (p.17, yn Marbina et al, 2010) 'Childrens learning and developing is advanced when they experience interactions with highly effective early childhood professionals'.

Yn ol adroddiad cwricwlwm Llywodraeth Cymru, dyma'r pedwar diben sy'n golygu fydd y plant:

- Yn ddysgwr uchelgeisiol, galluog
- Yn gyfranwyr mentrus, creadigol bywyd
- Yn unigolion iach, hyderus
- Yn ddinasyddion egwyddorol, bybodus


'Dylai'r dibeinion fod yn sail i'r holl benderfyniadau yn y dyfodol am flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol, ac yn sylfaen i'r holl addysgu a dysgu yng Nghymru. (Llywodraeth Cymru, 2015).

If children experience high quality early education and care, this can have a lasting, positive impact on educational outcomes and more... We know that high quality provision matters, and that poor and mediocre provision will not benefit children'.

(Nutbrown, 2012, pp.12-13)



Rhwystrau adfyfyrio i rai ymarferydd:



Elfen 3:

Log adfyfyriol

Disgrifiad byr o'r gweithgaredd (dim mwy na 50 o eiriau)
Cyflwyno grwp o 6 plentyn i'r pwll am eu gwrs nofio cyntaf yn bedair mlwydd oed.
Nod/Amcan y gweithgaredd
Mae rhai plant yn naturiol yn fwy cyffyrddus o amgylch y dwr i gymharu ag eraill, efallai ei fod yn gyfarwydd a nofio efo'i teulu, neu gall ddod lawr i gymeriad y plentyn a pa mor hyderus maent yn rhoi cynnig ar bethau newydd. Rhaid cadw mewn golwg, i nifer o blant yn enwedig yn bedair mlwydd oed efallai maent heb gweld pwll nofio mor fawr o'r blaen, felly mae hyn yn sicr yn gam enfawr iddynt. O ganlyniad, ar gyfer y gweithgaredd yma o gyflwyno'r plant i'w gwrs nofio cyntaf yn y pwll, fy amcan yw cael pob plentyn i mewn i'r dwr. Wrth wneud hyn, mae'r plant yn dechrau cyfarwyddo, er enghraifft, y teimlad o arnofio efo chymhorthion, dyfnder y pwll a hyd yn oed y tymheredd. Yn sgil hyn mae'r plant yn dechrau adeiladu hunan-hyder, ac erbyn diwedd y wers y nod yw bod y dosbarth wedi mwynhau, teimlo'n fwy hyderus ac eisiau dod nôl yr wythnos nesaf, wrth iddynt gymryd rhan mewn gemau syml a hwylus.
Eich rôl chi
Fy rôl i yw arwain y gwrs nofio a chydweithio efo'r cynorthwyydd sydd yn rhoi cymorth i'r plant yn y dŵr. Er mwyn sicrhau bod gwrs cyntaf y plant yn llwyddiannus, fy ngham cyntaf oedd i gynllunio yn fanwl, felly fe wnes i greu cynllun gwrs hyblyg, wrth geisio cofio am y ffaith fy mod i ddim yn ymwybodol am eu galluedd eto. Efo hyn, fe wnes i feddwl am amrywiaeth o gemau addas a fyddau'r plant yn mwynhau ac yn teimlo yn hyderus. Roedd rhaid sicrhau bod yr holl adnoddau oedd angen ar gyfer y wers yn barod, megis y teganau a'r cymhorthion nofio. Ond yn bennaf yn fy meddwl yw diogelwch y disgyblion, felly gwnes i osod rheolau clir a chadarn a sicrhau bod gweddill y staff yn hollol ymwybodol o'r cynllun gwrs a'r rheolau.
Agweddau cadarnhaol – pam? Sut gellid datblygu'r rhain ymhellach?
Un agwedd cadarnhaol o'r weithgaredd oedd yr amser nes i gysegru ar ddechrau'r wers i ddod i adnabod y plant. Er mwyn gwneud hyn, gwnes i gyflwyno fy hun, yna dod i adnabod enwau'r plant, gofyn cwestiynau syml er enghraifft, 'pa ysgol wyt ti'n mynd i?', 'Pwy yw'r cymeriad sydd ar dy wisg nofio?' ac yn y blaen. Yna, fe ddechreuais cyflwyno'r dwr yn araf bach. Yn gyntaf, gofynais pwy oedd yn gallu rhoi ei traed yn y dwr, pwy oedd yn galluicio'u coesau'n araf ac yna yn gyflym, er mwyn esgus tasgu dwr drosta i ynghyd â'u rhieni. Ar ôl tua 10 munud, roedd y plant yn llai nerfus ac yn barod i ddringo mewn i'r pwll ac i roi cynnig arni. Roedd hyn yn gryfder gan ei fod yn rhoi'r cyfle i blant ddechrau ymgyfarwyddo a mi ynghyd a'r dwr yn ffyrdd llawer mwy hwylus. Mae'r amser hyn yn holl bwysig i ddatblygu perthynas cadarn rhwng y staff dysgu ar plant, ac er mwyn datblygu'n pellach fyddaf yn ddefnyddio'r cynorthwyydd yn effeithiol a'i chynnwys fwy yn y gweithgareddau yma.
Agweddau heriol – pam? Cysylltwch a'ch arfer eich hunan.

- Un agwedd heriol o'r gweithgaredd oedd yn sicr ymddygiad un neu ddau o'r plant. Ar un llaw, oedd un plentyn yn amlwg yn tipyn yn fwy nerfus na'r gweddill ac yn ansicr iawn o adael ei rhieni. Ar ôl cymryd amser i esbonio wrtho ein fod yn mynd i eistedd ar ochr y pwll yn gyntaf yn ceisio tasgu dwr dros mam a dad, oedd yn fwy na hapus i dod i ymuno. Ar y llaw arall, oedd un plentyn yn hyderus dros ben ac yn gyflym iawn fe wnaeth dechrau diflasu o gorfod aros, ac o ganlyniad, nid oedd yn wrando ar cyfarwyddiadau ac yn torri ar draws y wers. I ddelio a hyn, fe wnes i creu bach o cystadleuaeth allan o pwy oedd yn gallu cicio'u coesau'n gyflymaf, ynghyd a ceisio rhoi cyfrifoldeb iddo gan gofyn os fyddde' yn gallu dangos i gweddill y grŵp fel i ni fod ddringo i mewn i'r pwll yn ddiogel. Yr her â all ddod o hyn yw fod y plant yma yn cymryd sylw oddi ar gweddill y grŵp, felly i osgoi hyn, wnes i penderfynu chwarae gem 'mae Seimon yn ddweud' gan ei fod yn rhoi'r cyfle i pawb cymryd rhan ar yr un pryd, efo cwestiynau megis, 'mae Seimon yn ddweud i rhoi un clust yn y dwr'.

Pa wybodaeth wnaethoch chi arddangos?

Fe wnes i arddangos wybodaeth ar ba fath o gemau a weithgareddau oedden i yn gwybod fydd yn addas i blant ddu-hyder a du brofiad er mwyn iddyn nhw fwynhau, er enghraifft, mae gem o 'siarcod' yn lawer o hwyl ond yn rhy heriol ar gyfer y plant yma yn ei wers cyntaf. I gymharu, mae chwarae efo teganau dwr ynghyd a gem o 'mae Seimon yn ddweud' neu 'goleuadau traffig' yn perffaith ar gyfer dosbarth ifanc newydd.

Pa sgiliau wnaethoch chi arddangos?

- Sgiliau arweinyddol gan taw mi oedd yn arwain y wers hanner awr.
- Sgiliau cyd-weithio effeithiol wrth i mi sicrhau fy mod wedi rhannu'r wybodaeth oedd angen ynglŷn a'r wers efo'r cynorthwyydd oedd yn y dwr yn fy nghefnogi.
- Sgiliau cynllunio effeithiol ar gyfer y wers, megis sicrhau fy mod a strwythur a gemau addas ynghyd a fod popeth oedd angen allan o flaen llaw.
- Sgiliau meddwl ar y pryd a datrys problemau.

Pa werthoedd wnaethoch chi arddangos?

- Drwy gydol y wers fe wnes i arddangos sgiliau cydraddoldeb proffesiynol wrth i mi sicrhau fod y wers yn gynhwysol ac fy mod yn rhoi yr un cyfleoedd i pob blentyn wrth cofio fod yn amyneddgar a parchu ei teimladau yn ystod y weithgaredd yma a all fod yn heriol i iddyn nhw.

Beth allai cael ei wneud yn wahanol yn y dyfodol? Pam?

Yn y dyfodol, fyddde ni yn sicrhau fod gen i fwy nag un cynorthwyydd yn y dwr yn ystod wersi cyntaf y plant, mae hyn yn galluogi nhw i cael fwy o'r sylw sydd angen arnynt. Yn ogystal a hyn, y tro nesaf i fi'n croesawi grŵp newydd i gwersi, i fi am anelu i gyflwyno fy hyn i'r blentyn ac i'r rhiant o flaen llaw er mwyn ceisio lleihau pryderon y ddau.

Elfen 4:

Cynllun Datblygiad Personol

Agwedd ar gyfer datblygiad pellach (Ychwanegwch fanylion)	Pam ?	Sut ?	Pwy/Ble ?	Pryd ?
• Cael fwy o brofiad o fewn meithrinfeydd efo babanod a phlant yn llai na beth i fi yn eu harfer.	• Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o brofiad i fi'n cael, nai llai o fewn ysgolion neu'r ganolfan hamdden lle i fi'n dysgu gwersi nofio sydd yn bennaf, efo plant rhwng 3 a 8 mlwydd oed. Felly, i fi a braidd dim profiad efo babanod a dw'i am fod yn fwy hyderus yn gweithio efo nhw gan ei fod yn dod efo lawer o wahanol heriau a chyfrifoldebau. • Efallai fyddaf yn darganfod fy mod yn hoff iawn o weithio efo babanod ac fe all cael pwyslais ar beth i fi'n mynd ymlaen i wneud a'n gradd.	• Ymchwilio i mewn i feithrinfeydd, asiantaethau megis Flying Start, Cylch Ti a Fi, Canolfannau Teuluol a hyd yn oed gwarchodwyr plant lleol fydda'n hapus i dderbyn myfyrwyr i ymuno a nhw am gyfnod.	• I fi wedi bod yn gysylltiad â meithrinfa o'r enw Cywion Bach, sydd tua 10 munud tu allan o Gaerfyrddin, ac rwyf yn holl gyffrous i fod yn ddechrau yno diwedd mis Ionawr.	Yn ystod y dau flwyddyn nesaf.
• Llwyddo i gwblhau'r 700 awr o brofiad lleoliad erbyn diwedd y flwyddyn.	• Er mwyn graddio efo'r statws ymarferydd, mae angen lleiafswm o 700 awr o brofiad efo plant o fewn unrhyw leoliad/au o'n dewis.	• Ceisio gwneud cymaint ag oriau ac sy'n bosib yn ystod y dydd i fi'n rhydd i fod yn lleoliad, wrth hefyd ceisio fod yn gyson efo'r dyddiau. • Sicrhau fy mod yn cadw cofnod o'r oriau i fi yn wneud yn y leoliad.	• Fydda'i yn cadw cofnod o'n horiau, fydd fy mentor yn ei chadarnhau ac yna fyddaf yn danfon i un o'm darlithwyr yn y brifysgol.	Erbyn diwedd 2020.
• Ail eistedd TGAU mathemateg a	• Er mwyn fod yn athro o fewn Nghymru, mae angen i bawb cael o leiaf gradd B	• Fyddaf yn ymuno a gwersi mathemateg tu	• Mae Coleg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin	Erbyn diwedd flwyddyn

llwyddo i gael gradd B neu'n uwch.	neu'n uwch yn fathemateg lefel TGAU, yn ôl (Careers Wales, 2020). Ar y funud, mae gen i radd C, ac er mwyn cael y cyfle orau posib o gael i dderbyn i wneud PGCE, mae'n allweddol fy mod yn ceisio ail eistedd yr arholiad.	allan i oriau prifysgol un gwaith yr wythnos, wrth hefyd astudio a gwneud cyn papurau yn amser fy hun.	yn cynnal cwrs mathemateg i bawb sydd am ail eistedd yr arholiad, felly byddaf yn mynychu'r gwersi o fis Medi eleni ymlaen.	academaidd2021.
. Ail eistedd TGAU mathemateg a llwyddo i gael gradd B neu'n uwch.	. Er mwyn fod yn athro o fewn Nghymru, mae angen i bawb cael o leiaf gradd B neu'n uwch yn fathemateg lefel TGAU, yn ôl (Careers Wales, 2020). Ar y funud, mae gen i radd C, ac er mwyn cael y cyfle orau posib o gael i dderbyn i wneud PGCE, mae'n allweddol fy mod yn ceisio ail eistedd yr arholiad.	. Fyddaf yn ymuno a gwersi mathemateg tu allan i oriau prifysgol un gwaith yr wythnos, wrth hefyd astudio a gwneud cyn papurau yn amser fy hun.	. Mae Coleg Pibwrlwyd yng Nghaerfyrddin yn cynnal cwrs mathemateg i bawb sydd am ail eistedd yr arholiad, felly byddaf yn mynychu'r gwersi o fis Medi eleni ymlaen.	Erbyn diwedd flwyddyn academaidd2021.
. Neud cwrs STA Level 2 Swm Wales Teacher's Award.	. Mae dysgu nofio yn swydd i fi'n hoff iawn ohono ac i fi yn gyson yn ceisio gwella fy hun fel yr hyfforddwr, ynghyd a profiad y phlant. Mae'r wobwr Lefel 2 yn gwrs 8 diwrnod sydd yn llawn cyfleoedd i ddysgu ac i wella, megis: . Dysgu am gemau newydd i chwarae sy'n addas ar gyfer pob grŵp oedran. . Dysgu am dechneg dulliau nofio o safon uwch a fydd yn galluogi mi i wneud mwy o wersi efo'r tonnau uwch efo'r plant sydd yn cymryd rhan mewn cystadlaethau megis y gala nofio efo'r Urdd, neu hyd	. I fi di bod yn cadw llygad mas am gwrs am gyfnod nawr ac i fi di bod yn ffodus iawn fod un yn cael ei chynnal yn y ganolfan hamdden leol dros gyfnod Pasg.	. Fydda'i yn wneud y cwrs efo chwpl o'r merched i fi yn dysgu ag yn y ganolfan, sef Calon Tysul, yn Llandysul.	Gwyliau Pasg eleni.

	yn oed helpu allan efo'r clwb nofio lleol. . Cwrdd ag athrawon nofio arall a rhannu syniadau. . Mae yn gymhwyster sydd yn edrych yn dda ar ddatganiad personol.			
--	--	--	--	--

Rhestr Cyfeirnod

- Bleach, J. (2014) *Developing professionalism through reflective practice and ongoing professional development*. European Early Childhood Education Research Journal, 22:22, 185-197.
- Careers Wales. (2020) *Teacher*. Available at: <https://www.careerswales.com/job-details/pdf>. [Accessed: 9th January, 2020].
- Gibbs, G (1998) *Learning by doing: A guide to teaching and learning methods*. Oxford Polytechnic: Oxford.
- Hallett, E. (2013) *The Reflective Early Years Practitioner*. London: Sage.
- Llywodraeth Cymru. (2015) *Dyfodol Llwyddinnus*. Ar Gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/329961/mod_resource/content/1/Dyfodol%20Llwyddiannus.pdf [Accessed: 12th January, 2010].
- Llywodraeth Cymru. (2019) *Professional standards for teaching and leadership: national approach to professional learning*. Available at: <https://hwb.gov.wales/professional-development/national-approach-to-professional-learning/professional-teaching-and-leadership-standards-national-approach-to-professional-learning> [Accessed: 12th January, 2020].
- Lluniau – Google Images.
- Marbina et al. (2010) *Reflective Practice: Victorian Early Years Learning and Development Framework*. Ar gael: <https://www.education.vic.gov.au> [Accessed: 11th January, 2020].
- McManus, J (dim dyddiad) *A new wave of senstaion: The critical role emotions play in critical reflection*.
- Nutbrown, C. (2012) 'Foundations for quality. Review of early education and childcare qualifications: Final report'. <http://media.education.gov.uk/MediaFiles/A/0/9/%7BA098ADE7-BA9A-4E18-8802-D8D4B060858D%7DNUTBROWN%20FINAL%20REPORT%20-%20final.pdf>
- Pacey. (2016) *Developing Self Reflective Practice*. Ar gael: [https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20\(PDFs\)/PG04-self-reflective-practice.pdf](https://www.pacey.org.uk/Pacey/media/Website-files/PACEY%20member%20practice%20guides%20(PDFs)/PG04-self-reflective-practice.pdf) [Accessed: 12th January, 2020].
- Ritchie, C. (Ed) (2014) *Challenge and Change in the Early Years Workforce: Working with Children from Birth to 8*. London: Routledge.
- The University of Edinburgh (2019) *Gibbs' reflective cycle*. Available at: <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle> [Accessed: 15th January, 2020].
- University of Cumbria. (2010) *Gibbs Reflective Cycle*. Ar Gael: <https://my.cumbria.ac.uk/media/MyCumbria/Documents/ReflectiveCycleGibbs.pdf> [Accessed 9th January, 2020].